| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **CYFARFOD:** | CYNGOR SIR |
| **DYDDIAD:** | 12 MAI 2016 |
| **TEITL YR ADRODDIAD:** | MABWYSIADU CÔD YMDDYGIAD NEWYDD AR GYFER AELODAU |
| **ADRODDIAD GAN:** | LYNN BALL<br>PENNAETH SWYDDOGAETH (BUSNES Y CYNGOR) / SWYDDOG MONITRO |
| **SWYDDOG CYSWLLT:** | LYNN BALL<br>PENNAETH SWYDDOGAETH (BUSNES Y CYNGOR) / SWYDDOG MONITRO<br>01248 752586 / lbxcs@anglesey.gov.uk |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD:** | CYDYMFFURFIO Â'R GORCHYMYN AWDURDODAU LLEOL (CÔD YMDDYGIAD ENGHREIFFTIOL) (CYMRU) (DIWYGIAD) 2016 |

## 1. CEFNDIR

1.1 Mae'n ofynnol i bob Awdurdod perthnasol yng Nghymru fabwysiadu Côd sy'n nodi'r ymddygiad a ddisgwylir gan Aelodau etholedig. Pennwyd y Côd gan Weinidogion Cymru ers ei gyflwyno yn 2000.

1.2 Daeth y Gorchymyn Awdurdodau Lleol (Côd Ymddygiad Enghreifftiol) (Cymru) 2016 i rym ar 1 Ebrill 2016 ac mae'r Gorchymyn yn ei gwneud yn ofynnol i bob Awdurdod perthnasol fabwysiadu'r Côd newydd erbyn dim hwyrach na 26 Gorffennaf 2016.

1.3 Mae'r Gorchymyn Statudol yn diwygio rhai elfennau o'r Côd presennol. Mae angen i'r Aelodau fod yn ymwybodol o'r newidiadau hynny ac mae'n rhaid diwygio Cyfansoddiad y Cyngor i sicrhau bod y newidiadau yn cael eu hymgorffori.

1.4 Unwaith y bydd y Côd newydd yn cael ei fabwysiadu gan y Cyngor, mae Aelodau wedi eu hymrwymo'n otomatig i lynu wrth ei ddarpariaethau yn sgil Adran 52(2) Deddf Llywodraeth Leol 2000 a Gorchymyn Etholiadau Lleol (Datganiad Derbyn Swydd) (Cymru) 2004.

1.5 O dan yr amgylchiadau, nid oes angen i Aelodau lofnodi ymrwymiad o'r newydd i lynu wrth y Côd diwygiedig.

## 2. NEWIDIADAU I'R CÔD YMDDYGIAD AR GYFER AELODAU

2.1 Nid oes angen mwyach i Aelodau roi gwybod i'r Ombwdsmon am ymddygiad gan Aelod y credir yn rhesymol ei fod yn torri'r Côd Ymddygiad.

**RHESYMEG**

Mae'r Ombwdsmon wedi gwneud yn glir ei fod yn dymuno canolbwyntio adnoddau prin ar y cwynion mwyaf difrifol, ac felly mae wedi cyflwyno prawf trothwy uwch ar gyfer ymchwilio i honiadau o dorri'r Côd. Nid yn unig y mae'r Ombwdson angen digon o dystiolaeth i ddangos bod yna achos i'w ateb, rhaid iddo fod er budd y cyhoedd i ymchwilio.

O ystyried y trothwy uchel hwn, nid yw bellach yn briodol gosod rhwymedigaeth gyfreithiol ar Aelodau i roi gwybod am bob achos posib o dorri'r Côd; ni waeth na fyddant yn addas ar gyfer ymchwiliad.

Yn lle hynny, mae'n rhaid i Aelodau godi eu pryderon yn gyntaf gyda'r Swyddog Monitro lleol a gofyn am gyngor ynghylch yw'r achos yn cwrdd â'r prawf trothwy. Mae'r Aelodau yn yr Awdurdod hwn yn gofyn am y fath yma gyngor eisoes beth bynnag, felly ni ddylai hyn arwain at unrhyw newid mewn arferion.

2.2 Mae adran 10(2) (b) y Côd Ymddygiad cyfredol yn cael ei dileu. Hon yw'r ddarpariaeth sy'n ymwneud â sefyllfa lle gallai aelod o'r cyhoedd yn rhesymol ystyried bod gwrthdaro rhwng rôl Aelod yn cynrychioli eu ward ac sydd hefyd yn gweithredu ar ran y Sir gyfan ar yr un pryd.

**RHESYMEG**

Mae wedi ei hen sefydlu, trwy Ganllawiau a gyhoeddwyd gan yr Ombwdsmon ym mis Medi 2012, mai camgymeriad drafftio oedd y ddarpariaeth hon, ac nid oedd ond i fod yn berthnasol i aelodau o'r Pwyllgor Gwaith sy'n gwneud penderfyniadau fel Aelodau Portffolio (yn hytrach na fel rhan o'r Pwyllgor Gwaith yn ei gyfanrwydd). Dyna'r dehongliad a fabwysiadwyd yma ers i'r Canllawiau ddod i rym ac mae'n golygu felly na ddylai'r newid hwn i'r Côd newid arferion cyfredol y Cyngor hwn.

2.3 Cyflwynir darpariaeth newydd sy'n rhoi hawl ychwanegol i Aelodau gyflwyno sylwadau ysgrifenedig o dan amgylchiadau lle mae ganddynt ddiddordeb sy'n rhagfarnu, ond lle mae aelodau o'r cyhoedd yn cael mynychu'r cyfarfodydd er mwyn gwneud sylwadau. Rhaid i unrhyw Aelod sy'n dibynnu ar y ddarpariaeth

hon gydymffurfio ag unrhyw weithdrefn y mae'r Cyngor wedi ei mabwysiadu ar gyfer cyflwyno sylwadau.

**RHESYMEG**

Rhoi Aelodau yn yr un sefyllfa â'r cyhoedd. Ni fydd unrhyw Aelod yn y sefyllfa hon yn gallu trafod na phleidleisio ar y mater.

## 3 ARGYMHELLION

3.1 Gofynnir i'r Cyngor nodi'r newidiadau i'r Côd.

3.2 Bod y Cyngor yn awdurdodi’r Swyddog Monitro i newid y Cyfansoddiad i ymgorffori'r newidiadau i'r Côd a chyhoeddi'r newidiadau yn unol â gofynion Adran 51 (b) Deddf Llywodraeth Leol 2000.